Orchard.

# Disgrifiad Swydd

| Teitl y Swydd | **Cyfarwyddwr Strategaeth y Grŵp** |
|---|---|
| Cyflog | £65,000-£75,000 yn ddibynnol ar brofiad |
| Tîm | Canolog (Asiantaeth) |
| Yn adrodd i (gweithwyr) | Bwrdd Gweithrediadau |
| Yn adrodd i (prosiectau) | Bwrdd Masnachol |

## Trosolwg o'r **swydd**

Mae Cyfarwyddwr Strategaeth y Grŵp yn swydd newydd sydd wedi'i chreu er mwyn creu a gweithredu strategaethau marchnata a chyfathrebu creadigol integredig effeithiol. Bydd y swydd arwain yma hefyd yn gyfrifol am y penderfyniadau gweithredol i gyflawni nodau cleientiaid a phrosiectau.

Bydd Cyfarwyddwr Strategaeth y Grŵp yn awdurdod uchel ei barch yn ei faes, fydd yn gallu canfod a chynnal gwaith ymchwil, amlygu mewnwelediadau, dyfeisio strategaethau creadigol cynhwysfawr, o gael y syniad cyffredinol mawr hyd at ei weithredu ar bob pwynt ar hyd y ffordd.

Byddan nhw'n cymryd rhan arweiniol yn y gwaith o sefydlu briff eglur ac yn deall y canlyniadau sydd eu hangen.
Wrth ddarparu ateb i'r briff, byddan nhw'n cynnal ymchwil ac yn sefydlu mewnwelediadau strategol allweddol a all fod yn sail i'r strategaeth gyfathrebu greadigol a brand gyfan.
Byddan nhw'n rhoi briffiau eglur i'r timau mewnol perthnasol sydd eu hangen i gyflawni strategaeth ymgyrchu mewn ffordd gydlynol a byddan nhw'n ganolog o ran gwerthuso syniadau yn erbyn mewnwelediadau defnyddwyr.
Byddan nhw'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r ymgyrch er mwyn sicrhau ymlyniad at y strategaeth wreiddiol, ac yn helpu i werthuso perfformiad a mesur canlyniadau effeithiol yn erbyn y briff gwreiddiol.

Bydd y swydd hefyd yn arwain ar yrru Agenda Effeithiolrwydd yr IPA o fewn yr asiantaeth ar bob lefel

Byddan nhw hefyd yn unigolyn trefnus iawn gyda'r adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol i gynllunio, cyflwyno a gweithredu cynlluniau'n hyderus o'r briff i ganlyniadau effeithiol.

**Cyfrifoldebau a** thargedau cyffredinol

- Darganfod mewnwelediadau a'u defnyddio i lunio strategaeth
- Tystiolaeth eu bod yn gallu dyfeisio, arwain a meithrin gwaith sy'n bodloni briffiau cleientiaid.
- Dyfeisio a chyflawni strategaethau ymgyrchu integredig perswadiol mewn ymateb i friffiau neu dendrau cleientiaid (gan gynnwys dec cyflwyno gyda diagramau sgematig wedi'u costio'n llawn gydag amserlenni).
- Nodi a rheoli adnoddau mewnol ac allanol i gyflawni ymgyrchoedd
- Cyflawni swydd strategol sy'n wynebu cleientiaid yn ôl y gofyn i gyd-fynd ag unrhyw swyddogaeth cyfarwyddwr cyfrifon arall.
- Yn deall rhifau'n dda iawn ac yn gallu deall, dehongli a defnyddio ffynonellau data ac ystadegau cymhleth ac amrywiol
- Dadansoddi canlyniadau ymgyrchoedd i werthuso llwyddiant a nodi meysydd i'w gwella

- Targedau: Ennill Cynigion a Thendrau (datblygu cyfrifon). Canolbwyntio ar Sectorau a Thir Newydd
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Achrediad effeithiolrwydd IPA (Sefydliad yr Ymarferwyr Hysbysebu). Effeithiau cadarnhaol y gellir eu priodoli ar sail gwerthuso ymgyrchoedd
- Y targed defnyddiadwy yw 50% o'r amser (y gellir ei filio i brosiectau cleientiaid)

**Cyfrifoldebau a** dyletswyddau penodol

**Pobl**

- Gweithio gyda'r Rheolwyr Arbenigol a Masnachol i greu a darparu strategaethau ymgyrchu integredig
- Darparu mentora proffesiynol ac uwchsgilio staff perthnasol
- Bod yn ysgogydd i staff yn eu tîm cynnyrch i'w hannog i roi o'u gorau ac i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol
- Dirprwyo dyletswyddau gweithredol i staff er mwyn cyflawni cynnyrch
- Dilyn gwerthoedd PRIME bob amser

**Cynnyrch**

- Rhoi cyngor i'r Asiantaeth ar unrhyw dechnolegau a thueddiadau newydd a phresennol yn y sector hysbysebu a marchnata (gan gynnwys defnyddio offer deallusrwydd artiffisial – AI)
- Darparu mewnwelediadau i'r farchnad a fydd yn cadw arlwy Orchard yn flaengar gan amlygu meysydd lle rydyn ni'n brin o'r nod.
- Darparu gwasanaeth ymgynghori strategol, naill ai fel gwasanaeth annibynnol neu fel rhan o ymgyrch integredig

## **Profiad** angenrheidiol

**Hanfodol**

- Tystiolaeth o brofiad fel Cyfarwyddwr Strategaeth neu swydd debyg mewn asiantaeth hysbysebu
- Tystiolaeth o lwyddiant yn cyflawni ymgyrchoedd ar gyfer brandiau mawr, Llywodraethau Cenedlaethol a chyrff anllywodraethol
- Profiad o ysgrifennu tendrau
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol
- Sgiliau datrys problemau a dadansoddi cryf
- Y gallu i weithio'n dda mewn amgylchedd tîm a chydweithio â thimau traws-swyddogaethol
- Dealltwriaeth o dechnegau ymchwil marchnad a dadansoddi
- Gwybodaeth am lwyfannau a sianeli marchnata digidol

**Dymunol**

- Profiad helaeth o weithio ar ymgyrchoedd dwyieithog (Cymraeg).
- Profiad aml-sector ar draws portffolio eang o sectorau
- Yn defnyddio ac yn gyfarwydd ag offer deallusrwydd artiffisial a data/gwybodaeth ymchwil o sawl ffynhonnell e.e. adroddiadau, neu gyfweliadau
- Gradd Baglor neu Feistr mewn marchnata, hysbysebu, busnes, neu faes cysylltiedig

## Pecyn buddion **Orchard**

Ein pobl sy'n ein gwneud mor arbennig. Dyna pam rydym yn cynnig pecyn buddion hael i bawb sy'n rhan o'n tîm. Dyma enghraifft o'r buddion sydd ar gael:

- Cyfleoedd gwaith hyblyg ac o bell
- Oriau craidd 10 – 4
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol
- Awr lles bob mis
- Cyllideb hyfforddi hael
- Yswiriant meddygol preifat
- Cynllun beicio i'r gwaith
- 8% o bensiwn (4% wedi ei gyfateb gennym ni a chi)
- Digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (fel diodydd ar ddiwedd y mis, clwb ffilm a phêl droed 5 bob ochr)

## Sut i **ymgeisio**

I wneud cais, anfonwch CV cyfredol atom a chrynodeb (1 tudalen ar y mwyaf) i ymunoartim@thinkorchard.com erbyn **canol dydd, Dydd Iau 29 Mehefin 2023**.
Rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau felly er ein bod yn gwneud ein gorau i gysylltu â phawb, os nad ydych wedi clywed gennym o fewn mis o'ch cais, yn anffodus nid ydych wedi bod yn llwyddiannus.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal, sy'n golygu y byddwn yn ystyried pob ymgeisydd sy'n gymwys beth bynnag fo'u hunaniaeth neu fynegiant rhywedd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gredoau, oed, tuedd rhywiol, statws anabledd neu unrhyw nodwedd warchodedig arall. Rydym yn recriwtio ac yn datblygu ein pobl ar sail teilyngdod a'u hangerdd ac rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol i bob gweithiwr.

## Blaengar. Parchus. Dychmygus. Ystyriol. Rhagoriaeth.